Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith
Collaborative Institute for Education Research, Evidence and Impact

# Parodrwydd Cadarnhaol i Ddysgu (PR4L)
# Rheoli Ymddygiad yn y Dosbarth

**Fyddech chi'n hoffi dysgu mwy am strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli ymddygiad yn y dosbarth?**

**Ydych chi'n athro neu athrawes gynradd ac yn chwilio am gyfleoedd datblygu proffesiynol?**

**Os felly, rydym yn eich gwahodd i ymuno â phrosiect cyffrous....**

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r astudiaeth hon, anfonwch e-bost at Millie Blandford-Elliott edp5f8@bangor.ac.uk

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r prosiect Rheoli Ymddygiad, a sut bydd fy ysgol yn elwa arno?** | *Ail gam y prosiect Parodrwydd Cadarnhaol i Ddysgu (PR4L), a ddechreuodd ym mis Ionawr 2018, yw'r prosiect Rheoli Ymddygiad yn y Dosbarth.* Ar y cam cyntaf, roedd saith ysgol gynradd o Sir Ddinbych a Chonwy yn cydweithio â Phrifysgol Bangor a GwE i newid diwylliant cymdeithasol eu hysgolion drwy gyflwyno dull cadarnhaol ysgol gyfan o reoli ymddygiad. Y nod oedd defnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i feithrin amgylchedd rhagweladwy, cyson a chadarnhaol ar draws yr ysgol gyfan.<br><br>Mae'r prosiect Rheoli Ymddygiad yn ceisio cefnogi athrawon i ddefnyddio technegau cyffredinol, syml i reoli ymddygiad, technegau sydd â thystiolaeth o leihau ymddygiad heriol a meithrin hinsawdd gadarnhaol mewn ysgolion. **Rydym yn chwilio am athrawon sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am reoli ymddygiad disgyblion ac/neu sydd am wella eu sgiliau rheoli ymddygiad.** Bydd yr athrawon sy'n gwirfoddoli ar gyfer y prosiect yn fodlon i ymchwilwyr ymweld â'u dosbarthiadau yn ystod oriau addysgu er mwyn gallu casglu gwybodaeth am ymddygiadau priodol ac amhriodol. Bydd angen iddynt hefyd fynychu tri gweithdy awr o hyd, bob un yn canolbwyntio ar agwedd wahanol ar reoli ymddygiad. Caiff athrawon gyfle hefyd i gael adborth unigol a thrafod unrhyw broblemau sy'n benodol i'w lleoliad nhw.<br><br>Ymddygiadau amhriodol gan ddisgyblion yw un o'r rhwystrau dysgu mwyaf. Nid yn unig y mae'n tarfu ar ddysgu'r disgybl sy'n camymddwyn, ond dysgu'r rhai sydd o'i gwmpas hefyd. Nod y prosiect hwn yw helpu ysgolion i leihau ymddygiadau amhriodol, cynyddu ymddygiadau priodol a helpu athrawon i ddysgu strategaethau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i reoli ymddygiad. Bydd y prosiect ymchwil hwn yn arfarnu effaith gwella gwybodaeth athrawon o strategaethau effeithiol i reoli ymddygiad ar hinsawdd dosbarth. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei phrosesu'n gyfrinachol, ac ni fydd yn cael ei rhannu â neb arall at ddibenion atebolrwydd. |

| | |
|---|---|
| **Sut y gwyddom ni bod Parodrwydd Cadarnhaol i Ddysgu yn effeithiol?** | Daw'r holl agweddau ar reoli ymddygiad gaiff sylw yn y gweithdai o ymchwil addysgol, ac maent wedi'u treialu mewn ysgolion yng ngogledd Cymru fel rhan o'r prosiect Parodrwydd Cadarnhaol i Ddysgu. Mae gan egwyddorion ymchwil Parodrwydd Cadarnhaol i Ddysgu sylfaen dystiolaeth eang sydd dros 30 mlwydd oed, ac fe'u defnyddiwyd mewn sawl gwlad gan gynnwys y DU, UDA, Awstralia a Norwy. Roedd cynllun peilot ar waith y llynedd gyda dau athro o Gonwy ac un athro o Sir Ddinbych. Ym mhob dosbarth lle gweithredwyd strategaethau, roedd ymddygiad ar-dasg yn well, a gwelwyd gostyngiad mewn ymddygiad trafferthus. |
| **Pa ddisgyblion/staff fydd yn elwa ar Barodrwydd Cadarnhaol i Ddysgu?** | Gwahoddir athrawon dosbarth sy'n gweithio mewn unrhyw ysgol gynradd i ymuno â'r prosiect. Hyderwn y bydd y prosiect yn fanteisiol yn y ffyrdd a ganlyn:<br>✓ dosbarthiadau lle mae systemau rhagweladwy, cyson a chadarnhaol i reoli ymddygiad.<br>✓ athrawon yn teimlo'n fwy hyderus i reoli ymddygiad heriol ac/neu fân ymddygiadau trafferthus.<br>✓ athrawon yn gallu treulio rhagor o amser yn addysgu yn hytrach nag adweithio i ymddygiadau trafferthus<br><br>Bydd nodau'r prosiect hwn hefyd yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau cenedlaethol:<br>✓ y Safonau Proffesiynol newydd i athrawon (er enghraifft Cydweithredu a Dysgu Proffesiynol)<br>✓ Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (er enghraifft Dysgu drwy, ac oddi wrth, yr amgylchedd allanol a'r system ddysgu ehangach) |
| **Beth fydd angen i ysgolion gyfrannu?** | Bydd angen i ysgolion ryddhau athrawon i fynychu'r tri gweithdy un awr. Bydd rhaid i athrawon sy'n cymryd rhan gael cydsyniad ysgrifenedig eu Pennaeth. |
| **Beth yw'r gost i bob ysgol?** | NID OES cost i'ch ysgol gymryd rhan yn y prosiect hwn. |

| **Sut fyddwn ni'n mesur effaith?** | Fe fydd un grŵp rheoli ar restr aros. Golyga hyn fod hanner y grŵp yn cymryd rhan gyntaf tra bo'r gweddill ar restr aros, fel grŵp rheoli. Pan fydd y grŵp cyntaf wedi cwblhau'r gweithdai, bydd yr ail grŵp yn dechrau arni. Cofnodir data arsylwi'n uniongyrchol ar ymddygiad disgybl ac athro. Defnyddir hwn i gael amcan o effaith y strategaethau rheoli ymddygiad ar ymddygiad disgyblion yn y dosbarth. |
|---|---|
| **Beth sy'n digwydd nesaf?** | Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r astudiaeth hon, neu yr hoffech gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at Millie Blandford-Elliott, edp5f8@bangor.ac.uk, cyn 24 Ionawr 2020. |

| Enw | Rôl | Sefydliad | Manylion cyswllt |
|---|---|---|---|
| Millicent Blandford-Elliott | Myfyriwr PhD | Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor<br>http://cierei.bangor.ac.uk/ | Edp5f8@bangor.ac.uk |
| Dr. Maggie Hoerger | Uwch Ddarlithydd | Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor<br>http://cierei.bangor.ac.uk/ | m.hoerger@bangor.ac.uk |
| Dr Richard Watkins | Arweinydd Ymchwil ac Arfarnu, GwE | GwE<br>Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor<br>http://cierei.bangor.ac.uk/ | richardwatkins@gwegogledd.cymru<br><br>Swyddfa: 0300 500 8087<br>Rhif ffôn symudol: 07557 759754 |